# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion FIN(3)-05-10

**Dyddiad: Dydd Mercher 10 Mawrth 2010**
**Amser: 09.20 - 11.10**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Pwyllgor yn bresennol

Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro (Cadeirydd)
Andrew Davies, Gorllewin Abertawe
Chris Franks, Canol De Cymru
Brian Gibbons, Aberafan
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Nick Ramsay, Mynwy (ar gyfer y sesiwn breifat)
Janet Ryder, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

John Grimes, Clerc
Catherine Hunt, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol
### Eitem 2

Yr Athro Philip Gummett, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
David Blaney, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Richard Hirst, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Yr Athro Noel Lloyd, Addysg Uwch Cymru
Greg Walker, Addysg Uwch Cymru

### 1. Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lorraine Barrett a Kirsty Williams. Nid oedd unrhyw un yn dirprwyo ar eu rhan.

### 2. Ymchwiliad i ariannu addysg ôl-16, addysg bellach ac addysg uwch - tystiolaeth bellach gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Addysg Uwch Cymru

### Papurau:

FIN(3)-05-10(p1)
FIN(3)-05-10(p3) - Gwybodaeth ychwanegol gan Addysg Uwch Cymru

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn unol â chais y Pwyllgor.

### Camau i'w cymryd

Y tystion i ddarparu gwybodaeth ychwanegol yn unol â chais y Pwyllgor.

Bydd yr Athro Gummett yn darparu ffigurau ar gyfanswm yr arian ychwanegol a dderbyniodd y sector drwy gydweithio gyda'r sector breifat a rhwng sefydliadau.

Bydd Mr Hirst yn darparu manylion ar yr arbedion effeithlonrwydd a wnaed gan y sector addysg uwch.

Bydd Mr Walker yn darparu manylion yr arbedion a wnaed drwy brosiectau ar y cŷd a thrwy'r trefniadau cydwasanaethu a argymhellwyd ym mhapur Addysg Uwch Cymru

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat o dan Reol Sefydlog 10.37

### 3. Adroddiad ddrafft ar Gyllideb Atodol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009-10

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft, yn amodol ar un gwelliant.

### 4. Ymchwiliad i ariannu addysg ôl-16, addysg bellach ac addysg uwch - ystyried y dystiolaeth

4.1 Trafododd y pwyllgor tystiolaeth a ddaeth i law.

## Papurau i'w nodi

Cyllideb Comisiwn y Cynulliad - ymateb i ohebiaeth

Papur FIN(3)-05-10(p2)

Ymchwiliad i ariannu addysg ôl-16, addysg bellach ac addysg uwch -

tystiolaeth ychwanegol gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Papur FIN(3)-05-10(p4)

Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Chwefror
Papur: FIN(3)-03-10(min)

## Gwasanaeth y Pwyllgorau